Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English

Dyddiad: dyddiad yr ebost

Annwyl Ddarparwr,

**COVID 19 – Cynllun Chwyddo Tâl Salwch Statudol (TSS)**

Ysgrifennwn atoch i roi manylion i chi ar sut i gofrestru ar gyfer cynllun newydd Llywodraeth Cymru uchod. Nod y cynllun yw rhoi cymorth i weithwyr cymorth y mae angen iddynt fod yn absennol o’r gwaith gan fod ganddynt COVID-19 neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19, neu gan fod angen iddynt hunanynysu.

Mae hyn yn dileu’r anfantais ariannol y mae gweithwyr cymorth yn ei wynebu trwy fod yn absennol o’r gwaith. Bydd hyn yn helpu i amddiffyn dinasyddion agored i niwed ac yn cefnogi diben y gronfa, sef rheoli’r haint.

Mae'r cynllun yn weithredol o 1 Tachwedd 2020 tan 30 Medi 2021 ar gyfer yr holl staff gofal, rhwng 14 Rhagfyr 2020 a 30 Medi 2021 ar gyfer gweithwyr cymorth, rhwng 24 Rhagfyr 2020 a 30 Medi 2021 ar gyfer gweithwyr allgymorth digartrefedd, rhwng 5 Mawrth 2021 a 30 Medi 2021 ar gyfer staff ategol mewn llety mwy math ‘hostel’.

**<u>Pwy sy’n gymwys</u>**

Os nad yw un o’ch gweithwyr cymorth yn gallu dod i’r gwaith oherwydd:

1. mae ganddo symptomau COVID-19 (dylai gael prawf yn ddi-oed)
2. mae wedi cael prawf COVID-19 positif:
3. mae’n hunanynysu gan ei fod wedi’i nodi’n gyswllt gan wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) GIG Cymru
4. mae’n hunanynysu gan fod aelod o’i aelwyd (estynedig) yn hunanynysu

Gallwch hawlio naill ai holl dâl salwch y cyflogai neu'r rhan sy’n fwy na’r TSS gan yr Awdurdod Lleol, gweler y canllawiau canlynol i'ch cynorthwyo.

**<u>Sut mae hawlio:</u>**

Mae tri cham i’r cynllun:

Cam 1 - nodi staff sy’n gymwys
Cam 2 - deall y canllawiau a chefnogi eich cyflogai (gweithiwr cymorth)
Cam 3 - cyflwyno hawliad a thaliad

**Cam 1**

Amgaewn ffurflen datganiad (Ffurflen 1 – ffurflen datganiad cyflogeion). Dim ond i weithwyr cymorth mae hon yn berthnasol. Mae angen i chi roi un copi o'r ffurflen hon i bob gweithiwr cymorth. Mae angen i'ch gweithiwr cymorth gwblhau'r datganiad a'i ddychwelyd atoch wedi'i gwblhau. Dylai'r ffurflenni hyn gael eu llenwi gan eich holl weithwyr cymorth a'u cadw ar ffeil i sicrhau bod y dogfennau gofynnol gennych pe bai angen i unrhyw un wneud hawliad o'r cynllun. **Bydd angen i chi gadw'r ffurflenni hyn at ddibenion archwilio/gwirio. Mae angen cadw'r holl ddogfennaeth yn unol â chanllawiau GDPR. Felly, dylech gadw pob dogfen mewn amgylchedd diogel am o leiaf 24 mis yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.**

**Cam 2**

Mae angen i gyflogwyr ddeall y canllawiau a sicrhau bod eich gweithwyr cymorth yn deall y canllawiau a'r hyn y mae ganddynt hawl i'w gael.

Mae cynllun arall ar gael i staff – **Cynllun Cymorth Hunanynysu.** Mae angen i gyflogwyr ddeall y cynllun hwn i helpu eich gweithwyr cymorth i benderfynu pa gynllun sydd orau iddynt a phryd dylent hawlio'r naill gynllun neu'r llall. **Dim ond o un cynllun ar y tro y gallwch hawlio.** Byddem yn eich annog yn gryf i ymgyfarwyddo â'r ddau gynllun. Mae'r holl ddolenni cyfarwyddyd ar ddiwedd y llythyr hwn.

**Cam 3**

Amgaewn Ffurflen 2 – Ffurflen hawlio'r cyflogwr. Caiff hon ei chwblhau gan y cyflogwr a'i chyflwyno i'w awdurdod lleol. Y bwriad yw:

- Rhoi gwybodaeth i'r awdurdod lleol am yr hawliadau; a
- Gofyn am gyllid gan yr awdurdod lleol yn unol â'r cynllun.

Gwneir taliad ar ôl i'r awdurdod lleol gyflawni ei wiriadau ac ar ôl i'r Telerau ac Amodau ddod i law wedi'u llofnodi.

Dim ond ar gyfer gweithwyr cymorth a gyflogir o fewn ffiniau Cyngor Caerdydd y dylid gwneud hawliadau i Gyngor Caerdydd.

**Cysylltu â ni**

Anfonwch eich ffurflenni hawlio ac unrhyw ymholiadau i:

CynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk

SSPEScheme@cardiff.gov.uk

**ATEBWCH I: Cynllun Chwyddo Tâl Salwch Statudol, Ystafell 342, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**E-bost: CynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk**

**Canllawiau**

I gael mwy o wybodaeth, gweler y cwestiynau cyffredin neu Ffurflen 1 - ffurflen datganiad y cyflogai, sydd wedi'u hatodi.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Chwyddo TSS yn: https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19

Gallwch gael mwy o wybodaeth am y Cynllun Cymorth Hunanynysu yn: https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu

Gall gweithwyr cymorth hefyd gael gwybod a ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Gwella TSS yma: https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19-offeryn-gwirio-pwy-syn-gymwys

Yn gywir,

Tîm y Cynllun Gwella TSS

**ATEBWCH I: Cynllun Chwyddo Tâl Salwch Statudol, Ystafell 342, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW**
**E-bost: CynllunTChTSS@caerdydd.gov.uk**